**CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU**
**Nos Fawrth, 12 Mai 2026, am 7.30 o’r gloch**
**Neuadd Bentref Llanelltyd**

## Cofnodion

### 1. Ymddiheuriadau

Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

### 2. Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb

### 3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Ebrill, 2025

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Mai 2026 yn gywir.

### 4. Materion yn Codi o’r Cofnodion – Ebrill, 2025

- Trafodwyd y rhestr ac amserlen ar gyfer adolygu polisïau blynyddol yn unol â gofynion archwilio. Nodwyd siom nad oedd fersiwn Gymraeg o'r ddogfen berthnasol ar gael, a chytunwyd i arddangos y fersiwn Saesneg.
- Trafodwyd trefnu hyfforddiant Modiwl Cyllid Un Llais Cymru i'r Clerc ac aelodau'r Cyngor. Cytunwyd i adnewyddu'r aelodaeth a rhannu manylion y cyrsiau perthnasol gydag aelodau.
- Trafodwyd cyflwr y llwybr yn y fynwent yn dilyn pryder a godwyd gan etholwr. Cytunwyd i geisio dod o hyd i gontractwr arall ar gyfer gwaith cynnal llwybrau cyhoeddus. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau ac yn ceisio dod o hyd i'r contract blaenorol. Yn y cyfamser, cytunwyd i ofyn i Ifan ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol.

### 5. Adroddiad y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

### 6. Materion Ariannol

- Wedi talu cyflog y Clerc o £215.20.
- Cytunwyd i adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru ar gyfer 2026/27.
- Nodwyd bod rhandaliad praesept o £6,000 wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd.

### 7. Archwilio

Dim adroddiadau newydd

### 8. Mynwent Llanelltyd

Dim adroddiadau newydd

### 9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- Ystyriwyd cais cynllunio NP5/65/125E ar gyfer amnewid y garafán statig bresennol gyda chwt bugail newydd a chodi decin allanol yn Nhyddyn Du, Bontddu Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

**10. Gohebiaeth**

- Trafodwyd Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026. Cytunwyd i gyflwyno cais grant ar gyfer prosiect **"Cyfoethogi Bro – Rhan Dau"**, gan gynnwys prynu a gosod mainc hygyrch newydd a thri hysbysfwrdd newydd yn y gymuned.

**11. Bioamrywiaeth**

- Trafodwyd y trefniadau ar gyfer y cynllun plannu coed yn y gymuned. Nodwyd y bydd Simon yn cydlynu'r gwaith.

**12. Ffyrdd a Llwybrau**

- Derbyniwyd diweddariad ynghylch y cais i newid cyfeiriad y llwybr cyhoeddus ger Fferm Borth. Nodwyd bod Delyth ac Elfed i fod i fynychu cyfarfod safle ynglŷn â'r mater.

**13. Materion eraill**